

Y Goeden Gorynnog gan Heledd Bianchi

Migildi Malwen a'r Fronfraith Chwit-Chwitaidd

Aha! Co'r pwll ddŵr!
A'i draw fyn a gysgodi rhag y Fronfraith!
Meddai Migildi Malwen
Yn betrusgar ar daith

Aha! plymiaf i'r dyfnderoedd!
Dihangaf o'r fronfraith chwilfrydig
A'i chani whit-whitaidd!

Mae fy nghlustiau ar dân
O dy ganu persain!
Meddai Migildi Malwen
I'r Fronfraith gosgeiddig
A gylchai o gwmpas
Y pwll uwch ei phen.

'Yippee', i mewn a fi
I gysgodi o'r Fronfraith whit-whitaidd
Dere Beti Broga! Caria fi, caria fi
At y Lili ddŵr felen, ddŵr felen fan draw.

Un, dau, tri, cydia yn dynn
Migildi Mentrus! Migildi Malwen!

Poppi y Ci a'i Iapan

Beth sy'n bod nawr Poppi?
Plîs rho stop i dy Iapan.
Dwy 'di bod lan a lawr sawl gwaith nawr
i weld oes 'na rhywun tu allan.
Mond brigau'r coed yn siglo yn y gwynt
sy'n tapio'r drws ffrynt, paid a ffysan!
Cer nôl i dy gwtsh, rho lonydd i Mam
hisht hisht a dy iap iap Iapan!

Pipo ar Wylan ar Draeth Talacharn

Mond sgrechfeydd hwylus y gwyfanod a glywir
wrth eistedd yn llonydd mewn cornel tawel
a'r haul yn tasgu yn danbaid ar fy mochau.

Co' ti, yn pipo am biti, yn hael dy fyd
mor gadarn dy stond, i ti'n wylan fusneslyd.
Mor urddasol wyt ti wrth lanhau dy blu.
Mor hardd yw dy adenydd wrth ymestyn fry
i lowcio llond dy fol o bry'.

Wyt ti wedi cael digon o hoe o dy gymdogion direidus
sy'n tasgu yn chwareus yn y pyllau byrlymus?
Mae nhw'n dy alw di atan, clywaf eu clebran.
Cewch i glosio 'da'ch gilydd
Ar draeth gwyn, eich hafan, yma yn Nhalacharn.

Brecwast Mamgu

On'd yw brecwast Mamgu yn flasus?
Eu jam mwyar duon a'u bara cartre' swmpus,
Eu hwyau ffres yn llachar felyn
Â dodwyd gan Mai a Lleucu o'u gardd;
Eu hier drygionnus, trachwantus,
Ond O!, hynnod o hardd.

'Rôl stwffio'r drydedd sleisen o'u bara jam ffein
A llond phlât o'u hwyau 'di sgramblo a shein,
Sy chaf fy swch, anwesaf fy mol
Ac allan af inne i chware, twt lol.

Ond unwaith i mi gamu allan drwy'r cefn,
Bloeddier Mamgu
"Arhosa, di ni ddim ar ben!"
Tra'n hastan o'r gegin â phentwr llêd y pen
O gremfogau seimllyd â ymestau i'r nen.

'Rôl bwyta'r cwbl lot,
O ni biti byrstio fy mhot.
Ody, mae brecwast Mamgu yn flasus
Ond nawr, fedra'i ddim glymud fy lasys

Y Deinosor Pinc

A welsoch chi siwt greadur erioed
A chrafangau mawr cryf, a gwynnedd main hir
Yn taro eu thraed trwy'r pentref?
Mae'n wir!

A glywsoch chi'r traed mawr
Yn tarannu trwy'r llawr
A'u chynffon yn chwip chwipio
Fel cryman trwy'r cloddiau?
A welsoch chi llygaid mor ffyrnig
A danedd mor finiog,
Yn agor a chau, agor a chau
Fel Jac Codi Baw anferthol;
Nid llai?
Caewch eich gatiau a'ch drysau,
Mae hi'n agosâu!

Gwrandewch ar y bwm crensh, bwm crensh.
Teimlwch y wefr, y dcynnwrf a'r poethder
O'r fflamau â ffrwydrau allan o'u ffroenau.
Cydiwch yn dynn i'ch silff ac i'ch sinc
Dyma hi'n dod, y deinosor pinc!

Ein Tŷ Bach Ni Ar Brynhawn Sul Llwyd A Gwlyb

Mae'n tŷ bach ni yn glyd
ar brynhawn Sul Llwyd a gwlyb.
Cawn liwio, gludo, peintio a thwrio,
Cawn ganu, dawnsio a hedfan fry
a diflannu i'm byd bach dedwydd ni.

Cawn wisgo lan fel ein harwyr gorau,
cawn floeddi lleisiau mawr o'n boliau.
Dewch gyda ni, dewch yn llu,
Dewch i weld yr holl ryfeddodau sy'.
Chwip chwap, rownd a rownd
lan a lawr, daliwch 'mlaen yn sownd.

Dewch i eistedd ar ein cwmwl hud,
Dewch i hedfan dros y dwndwr byd.
Dewch gyda ni, dewch yn llu,
Dewch i weld yr holl wyrthiau sy'.
Chwip chwap, rownd a rownd
lan a lawr, daliwch 'mlaen yn sownd.

Mor braf yw cael bod yn ein tŷ bach ni
tra bo'r glaw yn tywallt yn ddi-hid.
Eu dagrau yn taro ein ffenestri fel bwledi dur
gan adael traul o lysnafedd igam-ogam hir.

Mae'n tŷ bach ni yn glyd
ar brynhawn Sul Llwyd a gwlyb.
Cawn gwtsho gyda'm teulu ar y soffa
o flaen y teledu yn ein gynnu nosau,
a diflannu i'n byd bach dedwydd ni

Y Goeden Gorynnog

Troi a throi, troi a throi,
Sbïo i fyny, mae 'mhen am ffoi
i'r guddfan sy'n hafan.

Dere 'da fi, cawn fynd yn ddi-ri
i chwilio am antur a ffantasi.
Mae'r goeden gorynnog yn deffro,
Mae tannau y delyn yn cyffro.
Wnawn bigo ar blaeniau ein bodiau
i glustfeinio y tu hwnt i'r cloddiau.
Cydia'n fy llaw, tyrd i lawr,
Mae bywyd diddorol gerllaw.

Hisht, sbïa, weles ti honna yn mynd draw f'ynna?
Dere, rhaid dilyn clou.
Cydia yn y gangen 'ma, lapia dy goese.
Rhaid i ni swingan beni-waered pum gwaith,
yna cwtsho 'da'n gilydd cyn dechre'r daith!

Dere i ni weld beth sydd o dan yr holl ddail 'ma.
Mae pob math o greaduriaid bach i'w gweld
os wneu di sbïo yn ofalus.
Gwranda, clywi di'r dail yn crensian?
Mae dail yr hydref yn cuddio pob math o gyfrinache
Â'r goeden gorynnog 'ma yw eu cartre'.
Dere i'm helpu, cael symud y dail 'ma o'r neilltu.
Y pellach i lawr y chwilotaf,
teimlaf wlythni'r dail yn twymo.
Gwynti di hwnna?
'Na ti wynt ffein yn dod o wreiddiau'r goeden 'ma

Edrycha, mae'r dail coch yn newid lliw. Mae nhw'n troi yn felyn.
Gwasga dy drwyn yn erbyn y dail. Elli di wynto'r sinamon?
Dere i ni flasau. Mmm, mae'n blasu'r un fath a chacenni cri Mam-gu.
Dwy bron â llwgu eisiau bwyd, Wyt ti?